# Etholiadau'r Senedd 2026:

Gyda'n gilydd byddwn yn rhoi terfyn ar ddigartrefedd
Together we will end homelessness

# Holwch eich ymgeiswyr am ddigartrefedd yng Nghymru

**Dros yr wythnos nesaf, efallai bydd ymgeiswyr yn etholiad y Senedd yn dechrau curo ar eich drws. Byddant eisiau clywed beth sy'n bwysig i chi.**

**Codwch eich llais i roi diwedd ar ddigartrefedd drwy ofyn y cwestiynau hyn a rhannu'r ystadegau defnyddiol hyn.**

## Ein prif gwestiynau:

1. Rwy'n poeni bod cynifer o bobl yn fy ardal yn wynebu digartrefedd. A fydd eich plaid chi'n creu cynllun i roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru?
2. Mae Crisis - yr elusen digartrefedd - yn dweud y gallai'r gyfraith ddigartrefedd newydd yng Nghymru helpu i atal pobl rhag bod yn ddigartref. Bydd hefyd yn gwella'r cymorth sydd ar gael i bobl heb gartref. Sut byddwch chi'n sicrhau bod y gyfraith hon yn gweithio'n ymarferol?
3. Rwy'n credu y dylai pawb gael cartref diogel, sefydlog a fforddiadwy. Sut byddwch chi'n gwneud yn siŵr bod hyn yn digwydd? Ac a fyddwch chi'n creu'r cartrefi cymdeithasol rydym ni wir eu hangen?

## Ystadegau defnyddiol:

- Y llynedd, roedd cynghorau wedi cofnodi bron i 13,300 o aelwydydd a oedd yn ddigartref yng Nghymru. A bydd rhagor na chawsant eu cofnodi. [1]
- Mae ymchwil yn dangos, oni bai ein bod yn cymryd camau beiddgar, y gallai digartrefedd yng Nghymru godi 24% erbyn 2041.[2]
- Bob mis, mae tua 11,000 o bobl yng Nghymru yn byw mewn llety dros dro.[3] Mae hynny'n gallu bod am fisoedd lawer - heb gyfleusterau sylfaenol i goginio na golchi dillad. Ac yn aml does gan bobl ddim syniad pryd byddan nhw'n cael cartref sefydlog.
- Mae tua 94,000 o aelwydydd ledled Cymru yn aros am gartref cymdeithasol. Mae hyn yn gallu cymryd blynyddoedd.[4]

## Er mwyn rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru, rydym angen:

- buddsoddi mewn cartrefi cymdeithasol
- ffyrdd gwell o atal digartrefedd
- cefnogaeth well i bobl sy'n wynebu digartrefedd.

....a chynllun digartrefedd cenedlaethol i wneud yn siŵr bod hyn yn digwydd!

---

1. *Ystadegau Llywodraeth Cymru*
2. *Y Monitor Digartrefedd: Cymru, Crisis a Phrifysgol Heriot-Watt, 2025*
3. *Ystadegau Llywodraeth Cymru*
4. *Shelter Cymru "Aros am Gartref", 2025*